**Datganiad y Fforwm Rhyngseneddol**

**29 Chwefror 2024**



Credyd llun: Jack Marshall (Tŷ'r Arglwyddi)

Cyfarfu'r Fforwm Rhyngseneddol (y Fforwm) am y pumed tro ar 29ain Chwefror 2024 yn Nhŷ'r Arglwyddi. Cadeiriwyd y cyfarfod gan y Farwnes Drake a'r Arglwydd Ricketts, cadeiryddion pwyllgorau Cyfansoddiad a Materion Ewropeaidd Tŷ'r Arglwyddi, gyda chynrychiolwyr o Senedd Cymru, Tŷ'r Cyffredin, Cynulliad Gogledd Iwerddon a Senedd yr Alban yn bresennol.

Croesawyd y rhai a oedd yn bresennol gan yr Arglwydd Lefarydd, y Gwir Anrhydeddus Arglwydd McFall o Alcuith. Dywedodd ei bod yn bleser mawr croesawu aelodau seneddau a chynulliadau'r DU, bron i ddwy flynedd i'r diwrnod ers i Dŷ'r Arglwyddi gynnal cyfarfod cyntaf y Fforwm. Estynnwyd croeso cynnes i aelodau Cynulliad Gogledd Iwerddon, a oedd yn cymryd rhan yn y Fforwm am y tro cyntaf ers sefydlu Gweithrediaeth newydd yng Ngogledd Iwerddon.

Clywsom ddiweddariadau gan bob deddfwrfa a thrafodwyd materion o ddiddordeb cyffredin gan gynnwys gweithredu'r trefniadau ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol sydd wedi bod ar waith ers 2022, proses cydsyniad deddfwriaethol a Phapur Gorchymyn diweddar Llywodraeth y DU *Safeguarding the Union*. Cydnabuwyd natur neilltuol y trefniadau datganoli mewn gwahanol rannau o'r DU.

Roedd y datganiad a ryddhawyd yn dilyn cyfarfod blaenorol y Fforwm yn nodi pryderon a rennir ar draws ein deddfwrfeydd mewn perthynas â thryloywder a chraffu ar Fframweithiau Cyffredin yn y dyfodol. Ar ôl y cyfarfod hwnnw, fe wnaethom ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau, y Gwir Anrh Michael Gove AS, a gweinidogion sydd â chyfrifoldeb dros Fframweithiau Cyffredin yn y llywodraethau datganoledig, ynghylch y mater hwnnw.

Cynhaliwyd trafodaeth bellach gennym ynghylch craffu ar Fframweithiau Cyffredin yn y cyfarfod hwn a chytunwyd i ysgrifennu eto. Mynegwyd barn gadarn y dylid bod yn bosibl gwneud rhywfaint o gynnydd pellach nawr, yn dilyn sefydlu'r Weithrediaeth newydd yng Ngogledd Iwerddon, tuag at gwblhau'r 28 Fframwaith Cyffredin sy'n gweithredu dros dro ar hyn o bryd. Bydd hyn yn helpu i hwyluso gwaith craffu ar y fframweithiau hyn yn ein deddfwrfeydd. Yn ogystal, gwnaethom gais i fanylion gwerthusiad o'r broses Fframweithiau Cyffredin a gynhelir ar hyn o bryd gan Lywodraeth y DU gael eu rhannu gyda'r Fforwm.

Cafwyd trafodaeth hefyd am weithrediad y trefniadau ar gyfer cysylltiadau rhynglywodraethol. Er bod enghreifftiau da i'w gweld, cytunwyd bod angen mwy o gysondeb ac eglurder o ran gweithredu'r cysylltiadau. Codwyd nifer o bryderon am weithrediad confensiwn Sewel.

Trafodwyd cyfarfod diweddaraf Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE, a gynhaliwyd yn San Steffan ar 4-5 Rhagfyr 2023, ac edrych tuag at y cyfarfod nesaf, a gynhelir ym Mrwsel ar 18-19 Mawrth 2024.

Yn olaf, buom yn cyfnewid barn â Felicity Buchan AS, Is-Ysgrifennydd Gwladol Seneddol yn yr Adran Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau. Codwyd nifer o'r materion a drafodwyd yn gynharach yn y dydd gyda'r Gweinidog a chlywed am waith presennol Llywodraeth y DU yn y maes hwn.

**Yn bresennol**

Y Farwnes Drake, Cadeirydd, Pwyllgor Cyfansoddiad, Tŷ'r Arglwyddi

Yr Arglwydd Ricketts, Cadeirydd, Pwyllgor Materion Ewropeaidd, Tŷ'r Arglwyddi

Y Farwnes Andrews, cyn-Cadeirydd, Pwyllgor Fframweithiau Cyffredin ac aelod o'r Pwyllgor Cyfansoddiad, Tŷ'r Arglwyddi

Y Gwir Anrhydeddus, Syr Robert Buckland AS, Cadeirydd, Pwyllgor ar Faterion Gogledd Iwerddon, Tŷ'r Cyffredin

Pete Wishart AS, Aelod o’r Pwyllgor ar Faterion yr Alban, Tŷ'r Cyffredin

William Wragg AS, Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol, Tŷ’r Cyffredin

Paula Bradshaw ACD, Cadeirydd, Pwyllgor y Swyddfa Gweithredol, Cynulliad Gogledd Iwerddon

Matthew O’Toole ACD, Cadeirydd, Pwyllgor Cyllid, Cynulliad Gogledd Iwerddon

Clare Adamson ASA, Cynullydd, Pwyllgor y Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant, Senedd yr Alban

Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad, Senedd Cymru